Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Chwarae Cyn Ysgol Carmel
**Ysgol Bro Carmel**
**Carmel**
**Treffynnon**
**Sir Fflint**
**CH8 8NU**

**Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2012**

**gan**

**Mr Peter Mathias**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/06/2012**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yw Cylch Chwarae Cyn Ysgol Carmel ym mhentref Carmel. Sir Fflint yw'r awdurdod lleol. Darpara addysg feithrin ar gyfer plant rhwng oedran dwy flynedd pedwar mis a phedair blynedd. Mae'n rhoi darpariaeth cyn ysgol i hyd at 25 o'r plant hyn mewn sesiynau bore a phrynhawn yn yr wythnos am sesiynau o ddwy awr a hanner yr un.

Lleolir y lleoliad ar safle Ysgol Bro Carmel ble y trosglwydda'r rhan fwyaf o blant. Mynycha nifer o'r plant sesiynau ym meithrinfa Ysgol Bro Carmel.

Ar hyn o bryd mae 35 o blant ar y gofrestr gyda 23 o'r rhain yn mynychu'r sesiynau boreol ac 19 yn mynychu sesiynau'r prynhawn.

Daw'r plant sy'n mynychu o amrywiaeth eang o gefndiroedd ac amgylchiadau economaidd. Yn gyffredinol nid ydynt naill ai'n gymdeithasol ac economaidd freintiedig nac ychwaith yn ddifreintiedig.

Mae'r lleoliad yn gwasanaethu'r ardal leol. Mae pob un namyn un gyda Saesneg fel mamiaith. Nid oes yr un plentyn gyda'r Gymraeg fel iaith y cartref. Mae bron pob un o gefndir gwyn Prydeinig. Adnabyddir un disgybl gyda rhywfaint o anghenion dysgu ychwanegol.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn nhymor yr hydref 2011.Ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion arwyddocaol yn yr Adroddiad hwnnw. Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Estyn yn nhymor yr haf  2006.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- safonau da mewn llythrennedd cynnar, yn enwedig mewn siarad a gwrando;
- cymhareb oedolyn i blentyn manteisiol a ddefnyddir yn effeithiol;
- ymddygiad da ac agweddau cadarnhaol plant tuag at ei gilydd a thuag at oedolion;
- cwricwlwm cytbwys sydd wedi ei gynllunio'n ofalus;
- addysgu da cyson; ac
- arweinyddiaeth bwrpasol ac effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn  dda oherwydd:

- y cysylltiadau proffesiynol cryf gyda'r ysgol gynradd gyfagos a gyda'r awdurdod lleol;
- ymrwymiad yr ymarferwyr i gyd i welliant parhaus;
- disgwyliadau uchel a goleddir o'r hyn y gall plant gyflawni;
- ymdriniaeth tîm cadarnhaol ac adeiladol iawn; a
- chynnydd ers yr arolygiad diwethaf

## Argymhellion

Cytunodd yr arolygydd gyda'r lleoliad ynglŷn â'r argymhellion canlynol ar gyfer gwella:

A1 cynyddu'r cyfleoedd a ddarperir i blant i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg a'u gwybodaeth a dealltwriaeth o draddodiadau a diwylliant Cymru;

A2 cynyddu'r ddarpariaeth i blant i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn eu chwarae pob dydd;

A3 cofnodi'n fwy manwl y cynnydd wna plant a chymryd camau i annog plant i ddechrau gwneud asesiadau drostynt eu hunain o ble y gallent wella ; a

A4 chryfhau rôl y pwyllgor rheoli fel ei fod yn gweithio'n agosach gyda'r staff proffesiynol wrth farnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth ac wrth gytuno ar amcanion hir dymor y lleoliad.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u pwynt cychwyn gwahanol ac yn cyflawni'n dda bron ymhob agwedd o'r meysydd dysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae pob un ohonynt yn ddysgwyr chwilfrydig a brwdfrydig gan weithio ar eu tasgau a'u hymchwiliadau o wirfodd. Ymchwiliant drostynt eu hunain a gwnânt eu penderfyniadau eu hunain am ba weithgaredd maent am ddilyn a'r amser maent am dreulio ar bob un.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i siarad a gwrando . Siaradant ag oedolion yn hyderus. Gwyddant fod llyfrau yn cyfleu ystyr ac y dylid edrych arnynt o'r chwith i'r dde. Mae'r plant hŷn yn dechrau adnabod sut i ffurfio llythrennau, gan ddal pensil yn gywir. Gwyddant fod gan y llythrennau a ffurfiant hefyd synau a wnânt fel maent yn ysgrifennu.

Yn y Gymraeg mae'r rhan fwyaf o blant yn gwybod sut i ateb y gofrestr a defnyddio geiriau ac ymadroddion syml yn gywir , er enghraifft i gyfarch ei gilydd ac i wneud ymatebion syml. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd ganddynt o sut i ddisgrifio'r tywydd neu er enghraifft sut y maent yn teimlo. Maent yn adnabod y stori am 'Ticw' yr arth ac maent yn gwrando'n astud arni fel y'i darllenir yn y Gymraeg. Fodd bynnag, anaml iawn y defnyddiant y Gymraeg a Saesneg gyda'i gilydd wrth chwarae.

Mae plant ar draws y lleoliad yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu sgiliau sylfaenol mewn rhifedd. Mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddefnyddio teganau electronig, er enghraifft wrth ddefnyddio til ffug gwerthfawrogant y gellir gwneud taliadau yn electronig a bod arnoch angen cerdyn a rhif i gwblhau taliad. Rhaglennant deganau a weithredir â batri yn ofalus i ddilyn llwybrau rhagnodedig, gan droi mewn cyfeiriadau penodol. Fodd bynnag, meddant sgiliau cyfyngedig iawn wrth ddefnyddio cyfrifiaduron, er enghraifft i greu darluniau neu i ddilyn rhaglenni syml.

**Lles: Da**

Mae pob un plentyn yn deall pwysigrwydd glanhau dwylo yn drylwyr a gwnânt hynny cyn bwyta neu ar ôl bod yn y toiled. Meddant ddealltwriaeth gynyddol o ba fwydydd sydd yn well i'w bwyta nac eraill a sut y byddant yn elwa o wneud ymarfer corff. Gwnânt benderfyniadau drostynt eu hunain yn hyderus a bron pob amser yn synhwyrol. Siaradant ag oedolion o'u gwirfodd gan rannu eu syniadau gyda hwy a gyda'i gilydd, gan wybod y gwerthfawrogir eu safbwyntiau. Maent yn dechrau gofalu am eu hanghenion personol eu hunain a gwnânt hynny , yn aml gydag ychydig o gymorth gan oedolion.

Mae pob un o'r plant yn edrych ymlaen at ddod i'r lleoliad ac maent ar fyr dro yn dysgu rhannu a mwynhau cwblhau gweithgareddau gyda phlant eraill.. Maent yn

ystyriol ac yn ymwybodol o deimladau eraill. Bwytânt yn synhwyrol amser byr brydau mewn awyrgylch deuluol hapus a hamddenol.

Mae pob un ohonynt yn gwybod ac yn dilyn y rheolau ynglŷn ag ymddygiad da gan ymateb yn gadarnhaol pan ofynnir iddynt gyflawni tasg. Maent yn awyddus i blesio.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn ddeniadol ac yn darparu'n dda ar gyfer plant. Mae wedi ei drefnu'n dda fel y cynllunnir y profiadau dysgu yn ofalus i gwrdd ag anghenion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant gwahanol. Sicrha'r cynllunio bod plant yn gallu gwneud ystod eang o ddewisiadau fel dros amser eu bod yn gallu datblygu bron bob un o'r sgiliau cymesur a'u hoedran. Ar hyn o bryd mae cynllunio ar gyfer defnydd ehangach o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu heb ddatblygu digon.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm i gynllunio gweithgareddau ac i gyfnewid syniadau wrth baratoi am y gwaith o'u blaen. Ymatebant yn gyflym ac addasant eu cynlluniau i gwrdd â newidiadau y gall bod eu hangen. Trefnant yn systematig ar gyfer plant i ddatblygu sgiliau meddwl ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Sicrhânt fod eu chwarae tu fewn a thu allan yn bwrpasol a bod pob un o'r plant yn adeiladu'n systematig ar yr hyn maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud yn barod.

Sicrha'r cynllunio fod pob un o'r plant yn dechrau dysgu mwy am y gwahanol ffyrdd o fyw a diwylliannau pobl eraill. Er enghraifft, mae mentrau diweddar wedi arwain at gynllunio ar gyfer y plant i ddeall rhywfaint o draddodiadau Tsieineaidd a Mwslimaidd yn ogystal â rhai eu hunain. Fodd bynnag, tra bod enghreifftiau da o gynllunio i ddatblygu iaith a hunaniaeth Gymraeg y plant, ni chaiff y rhain eu rhoi ar waith yn gyson. Mae cyd- gynllunio gyda'r ysgol gynradd wedi galluogi plant i adeiladu dealltwriaeth well o waith rhai o'r bobl leol gan gynnwys heddweision, dynion tân a ffermwyr.

**Addysgu: Da**

Ar draws y lleoliad mae gan bob un o'r ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o beth y dylai pob un o'r plant ei gyflawni a gweithiant yn ddiwyd i helpu plant i fod yn ddysgwyr llwyddiannus. Meddant ddealltwriaeth dda o sut i gynllunio gweithgareddau ac ymchwiliadau ystyrlon a sut wedyn i hybu plant i ymchwilio yn hyderus ac yn annibynnol. Anaml iawn y rhoddant gyfarwyddiadau ac yn rheolaidd maent yn annog plant i feddwl pethau allan drostynt eu hunain trwy gyfres o gwestiynau sydd wedi eu dewis yn dda. Mae ganddynt berthynas gadarnhaol iawn gyda phob plentyn a chymer pob un o'r ymarferwyr ddiddordeb agos yn y modd mae pob un o'r plant yn mwynhau ac yn elwa o'r gweithgareddau.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio ymadroddion syml yn y Gymraeg wrth ymateb yn Saesneg neu yn y Gymraeg. Fodd bynnag, anghyson yw'r arfer hwn.

Ceir cyfundrefnau sydd wedi ei sefydlu'n dda i wneud asesiadau anffurfiol manwl o gynnydd plant unigol a thrafod yr arsylwadau yn wythnosol. Mae ymarferwyr hefyd yn cofnodi cynnydd erbyn diwedd arhosiad plentyn yn y lleoliad trwy gyfrwng trosolwg yr awdurdod lleol. Defnyddir hyn yn dda iawn i roi gwybodaeth i rieni a'r lleoliad meithrin ble mae bron pob un o'r plant yn trosglwyddo. Nid oes gan y lleoliad ar hyn o bryd ddigon o drefniadau i asesu yn fwy rheolaidd a ffurfiol ac i gofnodi'r arsylwadau a'r asesiadau hyn yn fwy manwl.

Trwy gydweithio'n agos gyda 'r feithrinfa yn yr ysgol gynradd, mae'r lleoliad wedi dechrau annog plant i fod yn ymwybodol o'r hyn y maent wedi ei gyflawni a'r cynnydd a wnânt fel unigolion. Maent yn y cyfnod cynnar o alluogi plant i feddwl am sut y gallent wella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Ceir trefniadau effeithiol ,sydd wedi ymsefydlu'n dda, i hybu iechyd a lles plant ac sy'n cyfrannu'n llwyddiannus i ddatblygiad y plant. Darpara'r lleoliad gyfleoedd priodol i'r plant i archwilio yn yr awyr agored, er enghraifft wrth dyfu llysiau yng ngardd yr ysgol gynradd.

Mae'r lleoliad yn annog pob un o'r plant mewn modd cadarnhaol i gydweithio'n dda gyda'i gilydd ac i feithrin agweddau cadarnhaol.. Gwyddant beth yw disgwyliadau'r lleoliad oherwydd cânt eu hatgoffa yn rheolaidd o'r hyn a ddisgwylir ohonynt. Mae pob un ohonynt yn gwybod beth yw ymddygiad derbyniol ac annerbyniol ac maent yn ymwybodol o'r angen i drin ei gilydd yn deg.

Ceir trefniadau da i ddarparu cefnogaeth arbenigol i'r plant pan fo angen hynny. Derbynia'r rhieni gyngor da a syniadau ymarferol yn yr amgylchiadau hyn ar sut y gallent gyfrannu at gynorthwyo eu plant. Ceir trefniadau da ar gyfer plant sydd â rhywfaint o anghenion dysgu ychwanegol. Gwna'r lleoliad bob ymdrech i sicrhau bod y plant hyn yn derbyn cynhaliaeth dda ac yn cyfranogi'n llawn ymhob gweithgaredd. Mae gan y lleoliad weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r amgylchedd ar gyfer dysgu wedi ei drefnu'n dda ac wedi ei osod yn ofalus. Er gwaetha'r angen o osod a chadw ar ddiwedd pob sesiwn , trefnir profiadau dysgu yn feddylgar. Mae pob un o'r ymarferwyr yn hybu'n llwyddiannus amgylchedd cadarnhaol a chyfeillgar. Cryfheir hyn yn arwyddocaol gan y berthynas weithgar glos rhwng ymarferwyr a phlant unigol.

Rhennir yr adeilad gyda grwpiau sy'n defnyddio'r un cyfleusterau cyn ac ar ôl pob sesiwn. Arwain hyn at gryn ail- drefnu dodrefn ar gyfer pob sesiwn. Tra golyga hyn gyfyngu rhywfaint ar ystod ansawdd rhai meysydd dysgu, mae'r amgylchedd yn llachar ac yn ddeniadol ac yn diwallu anghenion pob un o'r plant. Mae'r cyfleusterau chwarae tu allan yn darparu lle ac adnoddau addas i blant i chwarae yn rheolaidd ac i adeiladu eu sgiliau a'u cryfder corfforol.

Mae'r adnoddau yn gyffredinol o ansawdd a maint da ar gyfer plant o'r oedran hwn. Mae'r lleoliad wedi adnabod yr angen i wella ei adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac mae wedi dechrau mynd i'r afael â hyn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r goruchwyliwr yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn sicrhau'n llwyddiannus bod pob un o'r ymarferwyr yn cydweithio fel tîm cydwybodol. Mae pob un ohonynt wedi ymrwymo i welliant parhaus ac i ddarparu'n dda ar gyfer y plant yn eu gofal. Mae pob un yn cydweithio'n agos gan rannu syniadau ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain a'u cydweithwyr.

Ceir cyfundrefnau sydd wedi eu hymsefydlu'n dda i adnabod anghenion hyfforddi pob un o'r ymarferwyr ac i ddarparu cefnogaeth briodol naill ai tu fewn i'r lleoliad neu ymhellach. Mae gan y goruchwyliwr a phob un o'r staff gysylltiadau effeithiol, anffurfiol gyda rhieni sydd yn gwerthfawrogi'r mynediad rhwydd sydd ganddynt at ymarferwyr a'r adroddiad a dderbyniant .

Dim ond yn ddiweddar mae cadeirydd y pwyllgor rheoli wedi ysgwyddo'i chyfrifoldebau. Mae hi wedi adnabod yn gywir yr angen i gryfhau rôl y pwyllgor fel cyfaill cefnogol a beirniadol i'r staff proffesiynol. Ar hyn o bryd mae'r broses hon yn y camau cynnar o ddatblygu. Nid yw'r pwyllgor ar hyn o bryd yn cyfranogi'n llawn i farnu llwyddiant y lleoliad ac i gytuno ar ei amcanion hir dymor.

Gwnaeth y lleoliad gynnydd da i gwrdd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, yn enwedig wrth fabwysiadu cwricwlwm ac athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae'n cydweithio'n glos gyda phartneriaid eraill , yn enwedig gyda'r ysgol gynradd gyfagos. Mae'r lleoliad yn rhoi cryn bwyslais ar ddatblygu ffyrdd o fyw iachus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae pob un o'r ymarferwyr wedi bod ynghlwm yn anffurfiol â'r broses hunan arfarnu a meddant ddealltwriaeth glir o ble mae cryfderau'r lleoliad a ble mae ardaloedd ar gyfer gwella. Ystyriwyd hefyd farn yr ymarferwyr trwy gyfrwng holiadur a thrwy drafodaeth gyffredinol. Mae'r ddogfen hunan arfarnu a ddeilliodd o hyn yn adlewyrchiad gonest o'r lleoliad ac ar hyn o bryd mae'n adnabod blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Nid oes digon o fanylder yn y cynllun gweithredu perthynol i fynd i'r afael â'r ardaloedd ar gyfer gwelliant, i'w wneud yn ddogfen waith ddefnyddiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Ceir cysylltiadau cryf gyda'r awdurdod lleol i adnabod blaenoriaethau ac wrth barhau i adeiladu ar gryfderau'r lleoliad. Medda'r lleoliad bartneriaeth sydd wedi ei sefydlu'n dda ac sydd o les i'r naill a'r llall gydag Ysgol Gynradd Bro Carmel. Fel canlyniad manteisia'r lleoliad ar bob cyfle i wella addysg y plant trwy fynychu sesiynau hyfforddiant mewn swydd berthnasol yno, trwy rannu adnoddau a thrwy ddysgu oddi

wrth ymwelwyr arbenigol. Mae trefniadau pontio yn gryfder arbennig. Mae’r athrawes feithrin yn ymwelydd rheolaidd â’r lleoliad ac yn cydweithio’n agos gyda’r goruchwyliwr a phob un o’r ymarferwyr eraill.

Ymglymir rhieni yn briodol yn y trafodaethau ynglŷn â chynnydd eu plant ac wrth wneud penderfyniadau am eu hanghenion unigol. Cydweithia’r lleoliad yn agos gydag asiantaethau eraill gan gynnwys Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Cylchoedd Chwarae Cymru.

**Rheoli adnoddau: Da**

Lleolir y staff proffesiynol yn dda ac maent yn darparu lefelau uchel o gefnogaeth unigol i bob un o’r plant. Mae ystod dda o adnoddau ac offer o ansawdd da bron ymhob ardal. Er gwaethaf yr anhwylustod o roi popeth i gadw ddwywaith y dydd, mae’r ardaloedd dysgu yn ddiffiniedig ac mae’r holl adnoddau ar gael yn rhwydd i’r plant. Rheolir cyllid yn ofalus ac fe’i defnyddir yn dda. Mae’r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Ymatebodd deuddeg o rieni i'r holiadur. Gydag eithriadau prin roedd gan bob un ohonynt farn gadarnhaol am y lleoliad.

Yn gyffredinol, roedd pob un o'r rhieni yn fodlon â'r lleoliad. Teimlant fod plant yn mwynhau mynychu, yn ymsefydlu'n dda, yn gwneud cynnydd da ac yn cael eu trin yn dda.

Roedd pob un yn credu bod plant yn ymddwyn yn dda a'u bod yn cael eu haddysgu'n dda. Meddyliant fod ymarferwyr yn trin eu plant yn briodol ac yn eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff rheolaidd.

Roedd rhieni yn hyderus bod eu plant yn ddiogel yn y lleoliad ac yn derbyn pob cefnogaeth roeddent eu hangen. Roeddent yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiwn, awgrym neu broblem. Credant fod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen ac roedd ystod dda o weithgareddau ar gael gan gynnwys ymweliadau. Teimlai pob un bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

Ble cafwyd nifer fach iawn o ymatebion nad oeddent yn gadarnhaol, roedd y rhain ynglŷn â'r wybodaeth dderbyniai rhieni am gynnydd eu plant a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer delio â chwynion.

**Dysgwyr**

Roedd pob un o'r plant yn hoffi dod i'r lleoliad a gwneud ffrindiau newydd. Roeddent yn hyderus wrth weithio gyda'i gilydd a gyda phob un o'r ymarferwyr. Gwyddant yr hyn a ddisgwylid ohonynt a sut y dylent drin ei gilydd. Roeddent yn mwynhau'r cyfleoedd i helpu ei gilydd. Roedd pob un yn edrych ymlaen at ddychwelyd i'r sesiwn nesaf a pharhau gyda'u gweithgareddau.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Peter Mathias | Arolygydd Cofnodol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Meysydd Dysgu** | Y saith maes sy'n gwneud cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yw'r rhain. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg gan mai hon yw iaith y lleoliad eisoes.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol;<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu;<br>• datblygiad mathemategol;<br>• datblygu'r Gymraeg;<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd;<br>• datblygiad corfforol; a<br>• datblygiad creadigol. |
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn un o isadrannau Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad Llywodraeth Cymru. |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP)** | Mae'r bartneriaeth hon, sy'n rhan o'r awdurdod lleol, yn cymeradwyo lleoliadau i ddarparu addysg. Hefyd, mae ganddi'r pŵer i dynnu cyllid yn ôl gan leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar a chyfnod allweddol 1 (plant rhwng tair a saith oed). Nod y fenter yw darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac amrywiol mewn saith maes dysgu er mwyn diwallu anghenion datblygu gwahanol blant ifanc.<br>Y saith maes dysgu yw:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol a lles;<br>• iaith, llythrennedd a chyfathrebu;<br>• datblygiad mathemategol;<br>• dealltwriaeth ddwyieithog ac amlddiwylliannol;<br>• gwybodaeth am y byd a dealltwriaeth ohono;<br>• datblygiad corfforol; a<br>• datblygiad creadigol. |
| **Proffil asesu datblygiad plentyn y Cyfnod Sylfaen** | Proffil asesu wrth ymuno â'r Cyfnod Sylfaen; mae hwn yn ofyniad statudol mewn ysgolion o fis Medi 2011 ac mewn lleoliadau o fis Medi 2012. |
| **Athro ymgynghorol yr awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn y darparu cefnogaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant rheolaidd ar gyfer lleoliadau na'u cynhelir sy'n darparu addysg ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed |
| **Mudiad Meithrin** | Y sefydliad ar gyfer addysg feithrin Cymraeg yw hwn. Ei nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy |

| | |
|---|---|
| | gyfrwng y Gymraeg. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA)** | Elusen genedlaethol a sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli gwarchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r gymdeithas yn darparu mynediad i wasanaethau, hyfforddiant, gwybodaeth a chynllun sicrhau ansawdd. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd** | Elusen genedlaethol sy'n anelu i wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (WPPA)** | Mudiad gwirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal ac addysg cyn-ysgol yn y gymuned. |